Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad | Commonwealth Parliamentary Association

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2024 |
| **Amser:** | 12:30-13:15 |
| **Fformat:** | Cyfarfodydd wyneb yn wyneb |
| **Lleoliad:** | Ystafell Gynadleddа A |

**Cofnodion drafft**

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-lywydd)
Alun Davies AS
Rhianon Passmore AS
Natasha Asghar AS
Delyth Jewell AS

Ysgrifenyddiaeth
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen
Elin Sutton, Swyddfa Breifat y Llywydd

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Sam Rowlands AS.

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-24-01 (**DOGFEN 1**)

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

3. **MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

Dim.

4. **<u>Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol</u>**

- *Cynhadledd BIMR*
  *St Helena, 18-25 Mai*
  *(Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Hybrid ar 20 Mai).*

  Roedd Natasha Asghar AS wedi cynrychioli'r Senedd yn y Gynhadledd Ranbarthol lwyddiannus ac unigryw hon.

  Mynegodd Natasha Asghar AS gymaint yr oedd wedi mwynhau ei hamser yn St Helena a diolchodd am y cyfle hwn. Rhoddodd drosolwg o sut roedd Deddfwrfa a Llywodraeth St Helena yn gweithredu a soniodd am rai o'r heriau sy'n wynebu'r ynys oherwydd ei bod yn anghysbell a'r pryderon ynghylch y bobl ifanc yn gadael i chwilio am waith yn rhywle arall. Amlygodd hefyd rai o'r cyfleoedd ar gyfer y St Helena gyda'i chysylltedd TG gwell a newydd a'i phwyntiau gwerthu unigryw fel cyrchfan twristiaeth gynaliadwy.

  Roedd Natasha Asghar AS wedi cyfrannu'n llawn yn y gynhadledd, gan gynnwys fel prif siaradwr yn y sesiwn lawn agoriadol ar Ddeallusrwydd Artiffisial.

  Bydd adroddiad cynhwysfawr o'r gynhadledd yn cael ei ddarparu gan Ysgrifenyddiaeth BIMR maes o law.

  Diolchodd y Cadeirydd i Natasha Asghar AS am ei chyfraniad ac am gynrychioli'r Gangen yn y Gynhadledd Ranbarthol eleni.

- *Cynhadledd Deallusrwydd Artiffisial a Ffugiadau Dwfn*
  *Singapôr*
  *18-20 Mehefin*

Roedd Lee Waters AS wedi'i ddewis fel cynrychiolydd y Senedd i fynd i'r gynhadledd hon. Roedd adroddiad cynhwysfawr Lee wedi'i ddosbarthu, a nododd y byddai'n falch o'r cyfle i drafod ei brofiad a'i ganfyddiadau ymhellach gyda'r Aelodau.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn amlwg bod llawer iawn o ddiddordeb a brwdfrydedd gan Aelodau o'r Senedd yn y gwaith hwn a'r gobaith oedd y byddai cyfleoedd pellach i Aelodau gymryd rhan mewn Cynadleddau Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar AI yn y dyfodol.

Noder: Gofynnodd Alun Davies AS, yng nghyd-destun y gynhadledd hon, a oedd unrhyw ymchwil hysbys wedi'i wneud i ddylanwad Dealltwriaeth Artiffisial a Chamwybodaeth ar Etholiad Cyffredinol diweddar y DU.
Byddai Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn cysylltu â Gwasanaeth Ymchwil y Senedd i ganfod pa wybodaeth oedd ar gael mewn perthynas â hyn.

- *Ymweliad gan Ddirprwyaeth dan Arweinyddiaeth y Llefarydd o Gynulliad Cenedlaethol Québec*
  *11 Mehefin*

  Roedd y Llywydd yn falch iawn o'r cyfle a gafodd i groesawu ymweliad y Llefarydd Nathalie Roy a'i dirprwyaeth o Gynulliad Cenedlaethol Quebec. Cynhaliwyd rhaglen lawn gan y ddirprwyaeth a oedd wedi cynnwys sesiynau ar Ieithoedd Swyddogol, Menywod yn y Senedd a throsolwg o Fusnes y Senedd a'r Diwygiadau presennol. Cynhaliodd y Dirprwy Lywydd ginio gyda sawl Cadeirydd Pwyllgorau a chynhaliodd y Llywydd ginio swyddogol ar gyfer y ddirprwyaeth.

  Noder: Mae erthygl ar ymweliad y Llefarydd Roy â'r Senedd yn cael sylw yng nghyfnodolyn "The Parliamentarian" (rhifyn 105).

- *Ymweliad gan Lefarydd Senedd Queensland*
  *5 Gorffennaf*

  Ymwelodd yr Anrhydeddus Curtis Pitt, Llefarydd Cynulliad Deddfwriaethol Queensland â'r Senedd ar 5 Gorffennaf. Gydag ymweliad y Llefarydd yn digwydd ar ddydd Gwener (a'r diwrnod ar ôl yr Etholiad Cyffredinol) yn anffodus ni fu'n bosibl cynnig rhaglen

Llefarydd swyddogol. Fodd bynnag, rhoddwyd cyflwyniad ar ddatblygiadau yn y Senedd yn ogystal â sesiynau gydag uwch swyddogion, gan gynnwys ar ddiogelwch a chymorth yr Aelodau.

- *Cyfarfod o Bwyllgor Llywio Seneddwragedd Rhanbarthol y Gymanwlad BIMR*
  *Rhithwir*
  *15 Gorffennaf.*

  Cynhaliwyd cyfarfod o'r Seneddwragedd Rhanbarthol ychydig ddyddiau ynghynt. Roedd Rhianon Passmore AS a Delyth Jewell AS yn bresennol o'n Cangen.

  Nodwyd nad oedd y Fonesig Maria Miller wedi cael ei hailethol yn etholiad diweddar y DU. Cadarnhawyd Sarah Boyack ASA (Yr Alban) fel yr Is-Gadeirydd Rhanbarthol newydd (a’r Cadeirydd Dros Dro nes ethol Cadeirydd Rhanbarthol newydd)

  Ymysg y materion eraill a drafodwyd oedd:
  - cyfranogiad (gan Rhianon Passmore AS) mewn gweithgor cyfarfod ar y defnydd effeithiol o Gronfeydd Cryfhau Rhanbarthol
  - bygythiad i ferched sy'n sefyll etholiad.

  Diolchodd y Cadeirydd ar ran y Gangen i Rhianon Passmore AS am ei hamser fel Is-Gadeirydd Rhanbarthol CWP.

5. **BLAENGYNLLUNIO**

**<u>Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig</u>**

- *Senedd Ieuenctid y Gymanwlad*
  *Wellington, Seland Newydd*
  *2-6 Medi*

  Yn dilyn proses ddethol agored, hyrwyddwyd y cyfle hwn i gyn-Aelodau cymwys o Senedd Ieuenctid Cymru. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gyda dros ddwsin o geisiadau.

  Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn awr yn aros am gadarnhad a oedd ein henwebiadau wedi bod yn llwyddiannus.
  <u>Nodyn:</u> Dewiswyd Tegan Skyrme fel enwebiad y Senedd yn y CYP.

- *Gweithdy Seneddwragedd y Gymanwlad ar Frwydro yn erbyn Trais ar Sail Rhywedd*
  *Abuja, Nigeria*
  *20-22 Awst 2024*

  Daeth y Cadeirydd â'r Gweithdy CWP hwn i sylw'r Aelodau, gan nodi y byddai'n sicr o ddiddordeb i lawer o fewn ein Cangen. Fodd bynnag, roedd yr hysbysiad hwyr am y Gweithdy, yn ogystal â phryderon anecdotaidd ynghylch pa mor ymarferol oedd cael fisas o fewn yr amserlen ofynnol, yn golygu na fyddem yn gallu cynnig unrhyw Aelodau ar gyfer y cyfle hwn.

- *Rhaglen Breswyl Uwch ar Ddatblygu Seneddol*
  *Kuala Lumpur, Malaysia*
  *22 - 28 Medi*

  Yn yr un modd â chynhadledd CWP Nigeria, roedd hysbysiad o'r rhaglen hon wedi cyrraedd yn hwyr iawn.

  Noder: O ystyried yr achosion uchod, (yn ogystal â chynhadledd CPA Singapore yn ddiweddar) roedd Ysgrifenyddiaeth y Gangen bellach wedi ysgrifennu at y Pennaeth Rhaglenni ym Mhencadlys y CPA i ddatgan pa mor anodd oedd hi i gyllidebu a chynllunio ein hymgysylltiad yn effeithiol gyda chyn lleied o rybudd.

  Gwnaeth y CPA gydnabod hyn yn syth ac atebodd gan ddweud y byddai'n ymdrechu'n awr i ddarparu mwy o amser ac ymwybyddiaeth gynharach o raglenni oedd ar y gweill ganddynt.

- *67ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad,*
  *Sydney, De Cymru Newydd*
  *3-8 Tachwedd*

  Nododd y Cadeirydd fod y Gangen bellach wedi derbyn gwahoddiad swyddogol i fynd i CPC eleni yn Sydney.

  Roedd y Llywydd wedi datgan yr hoffai fynd i CPC eleni. Nodwyd nad oedd unrhyw Lywydd wedi bod i Gynhadledd CPA ryngwladol o’r blaen a’i bod yn ymddangos yn arbennig o briodol i’r Llywydd fynd i’r CPC eleni, a oedd yn cyd-daro â 25 mlynedd ers sefydlu’r Senedd.

Trafododd y Cadeirydd nad oedd, yn ei wyth mlynedd o gadeirio'r Gangen, wedi bod i CPC ond ei fod hefyd yn gobeithio mynd i'r CPC eleni.

Roedd yr Aelodau'n gytûn y dylai'r Llywydd a'r Cadeirydd gynrychioli Cangen y Senedd yn y gynhadledd eleni.

Byddai ysgrifenyddiaeth y Gangen yn awr yn cysylltu â'r CPA er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'n dirprwyaeth yn Sydney, gan gynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd dwyochrog yn ogystal â chyda'r Cymry ar wasgar yn Ne Cymru Newydd.

Noder: Cwestiynodd Rhianon Passmore AS a fyddai ethol Cadeirydd CWP BIMR (yr oedd ganddi ddiddordeb mewn cynnig ei hun ar ei gyfer) yn digwydd yn y CPC. Cadarnhaodd Ysgrifenyddiaeth y Gangen y byddai hyn yn digwydd yng Nghynhadledd Ranbarthol nesaf BIM yn 2025.

*2025*

- *73ain Seminar San Steffan*
  *10–14 Mawrth*

  Roedd Seminar San Steffan y flwyddyn nesaf eisoes wedi'i gadarnhau a gwahoddwyd y Senedd i anfon un Aelod (a Chlerc) i'r Seminar. Byddai'r cyfle hwn yn cael ei hysbysebu yn dilyn toriad yr haf.

- *Cynhadledd CWP BIMR*
  *Caeredin, yr Alban*
  *Mawrth/Ebrill (i'w gadarnhau)*

  Roedd Cangen yr Alban o CPA wedi nodi ei dymuniad i gynnal cynhadledd Ranbarthol CWP y flwyddyn nesaf ac roedd hyn yn debygol o gael ei gadarnhau yn yr hydref.

- *Cynhadledd BIMR*
  *Caerdydd, Cymru*

  Trafodir isod

- *68fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad / etholiadau CWP*
  *Barbados*
  *Awst (i'w gadarnhau)*

Roedd disgwyl i fanylion CPC 2025 gael eu cadarnhau yn CPC eleni yn Sydney, De Cymru Newydd.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

- ***Diweddariad ar Rwydwaith LHDTQ+ BIMR***

Un o'r canlyniadau cadarnhaol o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y BIMR yn St Helena oedd y cytundeb y dylai'r Rhanbarth weithio tuag at sefydlu Rhwydwaith LHDTQ+. Roedd Ysgrifenyddiaeth BIMR wrthi'n ceisio diddordeb gan Ganghennau i enwebu cynrychiolwyr i gymryd rhan mewn gweithgor cychwynnol ac roedd ei gyfarfod cyntaf yn cael ei gynllunio ar ôl toriad yr haf. Byddai Adam Price AS yn cynrychioli'r Senedd i ddechrau a byddai'r Gangen yn falch o agor y cyfle hwn i Aelodau eraill.

- ***Cymryd rhan yn thema strategol newydd BIMR: "Trawsnewid Digidol ac E-Senedd" (DOGFEN 3)***

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol BIMR diweddar, awgrymwyd y dylai Thema Ranbarthol eleni fod ar "Drawsnewid Digidol". Bydd gweithgor hefyd yn cael ei sefydlu ar y pwnc hwn a bydd croeso i Aelodau'r Senedd gymryd rhan ynddo.

- ***Diweddariad ar Gangen y Senedd yn cynnal Cynhadledd Flynyddol BIMR 2025.***

Nododd y Cadeirydd ei fod bellach wedi ysgrifennu at y Llywydd a Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd i ofyn yn swyddogol i'r Gangen gynnal BIMR y flwyddyn nesaf, a bod yr adnoddau a'r cymorth gofynnol ar gael i hwyluso hyn.

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL:**

Cyfarfod Pwyllgor Gwaith y Gangen – Hydref/Tachwedd (i'w gadarnhau)
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gangen - Rhagfyr

**DIWEDD**